MAE'R DDOGFEN HON HEFYD AR GAEL YN SAESNEG

Heddlu Police DYFED-POWYS
Diogelu ein cymunedau, gyda'n gilydd Safeguarding our communities, together

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

# COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU A PHRIF GWNSTABL HEDDLU DYFED-POWYS

# Adroddiad Blynyddol Y Cyd-bwyllgor Archwilio 2024-2025



# Rhagair y Cadeirydd

Cyflwynaf i chi fel Cadeirydd fy nhrydydd adroddiad blynyddol ar waith Cyd-bwyllgor Archwilio Comisiynydd Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabl Dyfed-Powys. Diben y Cyd-bwyllgor Archwilio yw darparu sicrwydd a chyngor annibynnol ar brosesau llywodraethu. Mae'r cyd-bwyllgor yn ystyried y trefniadau sydd ar waith ar gyfer rheoli risg a rheolaeth ariannol, a lle bo'n briodol, yn herio'r prosesau er mwyn cael sicrwydd eu bod yn addas i'r diben.

Yn gynnar ym mis Mehefin 2024, cyflwynodd Brian Jones hysbysiad o'i ymddiswyddiad i'r pwyllgor, a hoffwn ddiolch i Brian am ei gyfraniadau gwerthfawr i waith y pwyllgor. Yn dilyn ymgyrch recriwtio gynharach ddiwedd 2023-2024, llwyddom i benodi aelod newydd yn gymharol gyflym. Daw Caroline Wheeler â chyfoeth o brofiad o bersbectif ariannol yn y sector preifat i'r pwyllgor ac mae wedi ymgartrefu'n dda yn y rôl, ochr yn ochr â Farhan Shakoor, David Macgregor a Julie James sydd wedi parhau i gyflawni eu cyfrifoldebau fel aelodau o'r pwyllgor yn effeithiol. Mae eich cyfraniadau heb os yn cael eu gwerthfawrogi.

Wedi i ni wynebu heriau wrth gwblhau datganiadau o gyfrifon y flwyddyn flaenorol, braf oedd nodi bod y prosesau a'r amserlenni wedi gwella, ac roedd yn bosibl i'r pwyllgor gymeradwyo cyfrifon 2023-2024 mewn cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2024. Byddai'n esgeulus pe na byddwn yn diolch i bawb a fu'n rhan o'r gwaith o baratoi cyfrifon Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl, a diolch i unigolion o Archwilio Cymru am eu gwaith o sicrhau bod popeth yn gywir. Edrychaf ymlaen at weld yr ymagwedd hon yn parhau yn y blynyddoedd i ddod.

Fe sylwch fod y pwyllgor wedi cyfarfod saith gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae hyn wedi ein galluogi i wneud ein gwaith mewn modd amserol a sicrhau y caiff pob adroddiad a gyflwynir i'r pwyllgor ei ystyried yn llawn. Yn sgil cyflwyno blaengynllun gwaith, rydym bellach yn gallu rheoli cyfarfodydd yn fwy effeithiol, gan sicrhau bod digon o amser yn cael ei ddyrannu i drafod materion.

Eleni parhawyd â'r gwaith o fynd i'r afael â risgiau ariannol posibl trwy gyflwyno trefniadau llywodraethu gwell fel rhan o'r 'cylch cynllunio a sicrwydd', sy'n cefnogi'r gwaith o baratoi'r cynllun ariannol tymor canolig.

Yn olaf, hoffwn fanteisio ar y cyfle i ddiolch i swyddogion Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl ynghyd ag archwilwyr mewnol TIAA ac Archwilio Cymru sydd wedi cefnogi'r pwyllgor.

Kate Curran,
Cadeirydd y Cyd-bwyllgor Archwilio

# Y Cyd-bwyllgor Archwilio

Diben y Cyd-bwyllgor Archwilio yw rhoi sicrwydd annibynnol i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh) a'r Prif Gwnstabl o ddigonolrwydd y fframweithiau llywodraethu a rheoli risg, yr amgylchedd rheoli mewnol ac adrodd ariannol, a thrwy hynny helpu i sicrhau bod trefniadau effeithlon ac effeithiol ar waith.

Sefydlwyd y Cyd-bwyllgor Archwilio yn unol â Chod Ymarfer Rheolaeth Ariannol y Swyddfa Gartref, a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 ac yn unol â chanllawiau'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth.

Mae gan aelodau'r Cyd-bwyllgor Archwilio ddealltwriaeth o'r materion ariannol, risg a rheolaeth, a llywodraethiant corfforaethol sy'n wynebu'r CHTh a'r Prif Gwnstabl. Mae'r gallu ganddynt hefyd i herio, cwestiynu, archwilio a cheisio sicrwydd gan y CHTh a'r Prif Gwnstabl pan fo angen.

Dyma oedd aelodaeth y Cyd-bwyllgor Archwilio yn ystod 2024-2025:

| Aelod | Nifer y cyfarfodydd a drefnwyd i'w mynychu | Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd | % y cyfarfodydd a fynychwyd |
|---|---|---|---|
| Kate Curran (Cadeirydd) | 7 | 7 | 100% |
| Farhan Shakoor | 7 | 6 | 86% |
| David MacGregor | 7 | 6 | 86% |
| Julie James | 7 | 7 | 100% |
| Caroline Wheeler | 6 | 4 | 67% |

- Roedd Brian Jones yn aelod o'r Pwyllgor tan fis Mehefin 2024 ond nid oedd unrhyw gyfarfodydd yn ystod y cyfnod hwnnw i Brian fynd iddynt.

Mae pob aelod o'r Cyd-bwyllgor Archwilio wedi'u fetio ac wedi cwblhau ffurflen i ddatgan buddiannau.

Mae'r CHTh a'r Prif Gwnstabl, Prif Weithredwr a Phrif Swyddog Cyllid y CHTh a Chyfarwyddwr Cyllid y Prif Gwnstabl hefyd yn mynychu cyfarfodydd y Cyd-bwyllgor Archwilio. Mae swyddogion eraill yn mynychu i ddarparu gwybodaeth am archwiliadau, rhaglenni gwaith, neu unrhyw faterion eraill yn ôl yr angen.

Yn dilyn ymddiswyddiad Brian Jones ddiwedd mis Mehefin 2024, penodwyd Caroline Wheeler i'r pwyllgor a bu'n arsylwi cyfarfod ym mis Gorffennaf 2024 cyn dod yn aelod llawn yng nghyfarfod mis Hydref. Mae'r pwyllgor yn parhau i fod yn llawn, sy'n darparu gwydnwch i alluogi adolygu a herio priodol ym mhob cyfarfod.

Mae aelodau'r pwyllgor hefyd yn mynychu cyfarfodydd llywodraethu mewnol yr heddlu i ddarparu haen ychwanegol o sicrwydd. Cynyddodd nifer y cyfarfodydd yn ystod 2024-2025 wedi i drefniadau llywodraethu'r heddlu gael eu hadnewyddu. Roedd y cyfarfodydd hyn yn cynnwys:

- Grŵp Llywodraethiant Archwilio
- Bwrdd Llywodraethiant Corfforaethol
- Bwrdd Pobl, Diwylliant a Moeseg
- Grŵp Ystadau Strategol

- Bwrdd Cynllunio Gweithlu Strategol
- Bwrdd Cyllid Strategol a Chyllid Tymor Canolig
- Bwrdd Strategol TGCh
- Bwrdd Sicrhau Gwybodaeth
- Bwrdd Fflyd Strategol

# Cyfarfodydd


Cynhaliwyd yr holl gyfarfodydd yn rhithwir drwy Microsoft Teams yn ystod y cyfnod hwn, ac eithrio'r cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2024 a gynhaliwyd yn hybrid gyda nifer o'r aelodau'n mynychu wyneb yn wyneb. Yn ogystal â chyfarfodydd ffurfiol y Cyd-bwyllgor Archwilio, mynychodd yr aelodau seminarau ychwanegol, fel y nodir yn y paragraffau canlynol.

Gwahoddwyd yr aelodau i Seminar Cyllid Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ym mis Tachwedd 2024 a roddodd drosolwg i'r rhanddeiliaid o'r heriau gweithredol ac ariannol sy'n wynebu'r gwasanaeth. Darparodd y sesiwn wybodaeth am waith yr heddlu o gyd-destun gweithredol a oedd yn cynnwys diweddariad ar Adolygiad yr Heddlu a diweddariadau gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi.

Yn y seminar cyllid, cafodd yr aelodau fewnbwn gan Link Group, Cynghorwyr Rheoli y Trysorlys, ar y sefyllfa economaidd bresennol ac amodau'r farchnad ac eglurwyd iddynt pa elfennau allweddol yr oedd angen eu hystyried ar gyfer y strategaethau ariannol perthnasol.

Cafwyd diweddariad hefyd gan y Cyfarwyddwr Pobl a Datblygiad Sefydliadol mewn perthynas â materion y gweithlu, ac yn benodol yr heriau a wynebir o ran recriwtio a chadw swyddogion a gweithwyr ar draws y sefydliad.

Cynhaliwyd seminar ar ddatganiad o gyfrifon ym mis Tachwedd rhwng yr aelodau, y Prif Swyddog Cyllid, y Cyfarwyddwr Cyllid ac arweinwyr cyllid o fewn yr heddlu i ystyried y manylder helaeth yn nrafft datganiad o gyfrifon 2023-2024. Ystyriwyd bod yr ymarfer hwn yn ddefnyddiol iawn er mwyn adolygu'r cyfrifon a'r dogfennau cysylltiedig a chafwyd trafodaethau gwerthfawr iawn. Cafodd y pwyllgor hefyd gyfrannu at y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, diweddariad gan Archwilio Cymru ac ystyried adroddiadau diweddaru ar y gwaith sy'n cael ei wneud i sicrhau gwerth am arian.



# Rhaglen waith ar gyfer 2024-2025

Cynhaliodd y Cyd-bwyllgor Archwilio saith cyfarfod ffurfiol yn 2024-2025. Yn ystod y cyfarfodydd hyn, cafodd y pwyllgor adroddiadau, argymhellion ac arsylwadau gan archwilwyr mewnol TIAA, Archwilio Cymru a diweddariadau gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi. Cafodd y pwyllgor hefyd gyflwyniadau gan swyddogion Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r heddlu ar bynciau allweddol er mwyn gallu llunio barn annibynnol a rhoi sicrwydd i'r CHTh a'r Prif Gwnstabl ynghylch y rheolaethau ariannol a llywodraethiant o fewn y corfforaethau undyn.

Nododd y pwyllgor feysydd busnes allweddol y dylid canolbwyntio arnynt yn ystod 2024-2025, yn benodol: Goruchwylio'r gwaith o baratoi'r datganiad o gyfrifon ar gyfer 2023-2024, ystyried trefniadau rheolaeth ariannol, fframwaith llywodraethiant corfforaethol, rheoli risg, archwilio mewnol, rheoli gwybodaeth, monitro'r gwaith o weithredu'r argymhellion o adolygiadau archwilio mewnol a pholisi twyll a gwrthlygredd diwygiedig.

Roedd y rhaglen waith yn cynnwys y canlynol:

**Cylch Gorchwyl** – yn dilyn adolygiad o'r cylch gorchwyl ym mis Chwefror 2025, ystyriodd a chymeradwyodd y pwyllgor y cylch gorchwyl diwygiedig yn y cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2025. Mae'r cylch gorchwyl yn seiliedig ar ganllawiau Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth a byddant yn cael eu hadolygu'n flynyddol.

**Rheoli risg:** Parhaodd y Cyd-bwyllgor Archwilio i dderbyn cofrestrau risg corfforaethol Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r heddlu, a oedd bellach yn debyg o ran fformat yn dilyn adborth gan aelodau yn ystod y flwyddyn flaenorol. Yn ystod y flwyddyn, ystyriodd y pwyllgor ddau adolygiad archwilio mewnol mewn perthynas â risg. Ym mis Hydref, cyflwynwyd adroddiad ar adolygiad y fframwaith rheoli risg a oedd yn darparu sicrwydd rhesymol. Ym mis Rhagfyr, cafodd y pwyllgor adroddiad ar y gweithdrefnau lliniaru mewn perthynas â rheoli risg a gafodd sicrwydd sylweddol. Roedd y ddau adolygiad yn cynnwys nifer o argymhellion, ond roedd y pwyllgor yn fodlon, o glywed yr ymatebion a ddarparwyd yn y cyfarfod, nad oedd rheoli risg yn faes y dylid pryderu amdano.

**Rheoli gwybodaeth:** Parhaodd y pwyllgor â'i ddiddordeb yn y maes hwn yn ystod 2024-2025 oherwydd y problemau sylweddol blaenorol o ran ôl-groniadau o geisiadau rhyddid gwybodaeth a cheisiadau mynediad at wybodaeth o fewn yr heddlu. Yn dilyn hunanatgyfeiriad gan yr heddlu i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, bu'r Cyd-bwyllgor Archwilio yn monitro'r datblygiadau yn y maes hwn yn agos ac yn cael ei ddiweddaru ym mhob cyfarfod. Yn y cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2025, roedd y pwyllgor yn hyderus yn y cynnydd a wnaed a phenderfynodd gael diweddariadau bob chwe mis o hyn ymlaen. Mynegodd y Cyd-bwyllgor Archwilio ei ddiolch i'r holl staff a oedd wedi gweithio'n galed i fynd i'r afael â'r problemau.

**Llywodraethu:** Cafodd y Cyd-bwyllgor Archwilio yr wybodaeth ddiweddaraf am gamau gweithredu'r Grŵp Llywodraethiant Corfforaethol a'r Grŵp Llywodraethiant Archwilio. Yn unol ag un o'r blaenoriaethau ar gyfer 2024-2025, gwnaed cais gan y pwyllgor i adroddiad diweddaru'r Grŵp Llywodraethiant ac Archwilio gynnwys adroddiad cynnydd ar yr holl argymhellion a wnaed gan adolygiadau archwilio mewnol sydd eto i'w mabwysiadu. Cyflwynwyd yr wybodaeth hon ym mhob cyfarfod, a heriodd y pwyllgor y meysydd lle bu oedi wrth weithredu argymhellion. Yn ystod y flwyddyn, ystyriodd y pwyllgor y fframwaith llywodraethiant corfforaethol ar ddau achlysur. Yr achlysur cyntaf oedd yn dilyn adolygiad cynhwysfawr o drefniadau llywodraethu Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, a'r ail wedi i ddeddfwriaeth gaffael newydd gael ei chyflwyno. Ar y ddau achlysur cymeradwyodd y pwyllgor y fframwaith diwygiedig.

**Adrodd Ariannol** – Yn dilyn oedi blaenorol wrth gymeradwyo cyfrifon 2022-2023, gofynnodd y pwyllgor am yr wybodaeth ddiweddaraf am y broses a'r amserlen ar gyfer cyfrifon 2023-2024. Roedd y pwyllgor yn falch o nodi bod gwersi wedi'u dysgu o flynyddoedd blaenorol, a oedd yn golygu ei fod wedi gallu cymeradwyo'r cyfrifon ar gyfer 2023-2024 mewn cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Tachwedd. Fel rhan o'i gyfrifoldebau craidd, ystyriodd y pwyllgor y cynllun ariannol tymor canolig, strategaeth reoli'r trysorlys, y polisi cronfeydd wrth gefn a'r strategaeth gyfalaf. Cafodd y pwyllgor hefyd adroddiad diweddaru ar gamau gweithredu'n ymwneud â rhestr wirio rheolaeth ariannol Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ym mis Medi 2024, ac yn ystod yr ystyriaeth gwnaeth gais am ddiweddariad pellach yng nghyfarfod mis Mawrth 2025 i roi sicrwydd eu bod yn mynd i'r afael â'r camau gweithredu. Roedd y pwyllgor yn falch o nodi cynnydd da o ran gweithredu'r camau gweithredu.

**Archwilwyr Mewnol:** Cafodd y Cyd-bwyllgor Archwilio adroddiadau ar y gwaith a wnaed gan archwilwyr mewnol TIAA. Yn 2024/2025, cynlluniwyd 21 archwiliad mewnol, fodd bynnag, ystyriwyd 20 adroddiad archwilio mewnol penodol gan y Pwyllgor yn 2024/25. Byddai un adolygiad mewn perthynas â Chadw Data TGCh yn cael ei ystyried yn gynnar yn 2025/2026. Roedd 16 yn adolygiadau sicrwydd mewnol mewn perthynas â Dyfed-Powys. Roedd pedwar adolygiad arall yn adolygiadau o waith cydweithredol a oedd yn mynd rhagddo ymysg holl heddluoedd Cymru. Fel rhan o'u rôl, gallai'r aelodau herio'r wybodaeth a oedd wedi'i chynnwys yn yr adroddiadau a cheisio sicrwydd y byddai'r gwaith adferol yn cael ei wneud pan fyddai problemau yn cael eu nodi er mwyn ysgogi gwelliannau. Ar adegau, nododd yr aelodau bod rhai adolygiadau wedi derbyn sicrwydd sylweddol neu resymol pan oedd risgiau hysbys yn y meysydd priodol. Gwnaed cais gan y pwyllgor i gofrestrau risg gael eu hystyried fel rhan o adolygiad yn y dyfodol er mwyn sicrhau dull cyfannol a chanlyniad effeithiol i adolygiad. Yn ystod y flwyddyn, derbyniodd 14 o adolygiadau sicrwydd sylweddol a derbyniodd chwech sicrwydd rhesymol (gweler y tabl isod am lefelau sicrwydd unigol). Yn ystod y flwyddyn, ystyriodd y pwyllgor un adolygiad cydweithredol penodol o 2023-2024 mewn perthynas â'r Ddeddf Diogelu Data wedi iddo godi pryderon yn ystod y flwyddyn bod yr heddlu wedi derbyn sicrwydd rhesymol gyda nifer fawr o argymhellion. Gwnaed cais gan y pwyllgor i ailailystyried yr adolygiad, ac yn dilyn cyfarfodydd rhwng yr archwilwyr mewnol ac aelod o'r Cyd-bwyllgor Archwilio sydd â phrofiad arbenigol, newidiwyd lefel rhai o'r argymhellion, a arweiniodd at y sicrwydd cyffredinol yn cael ei newid i sicrwydd cyfyngedig. Bydd y gwaith o weithredu'r argymhellion yn cael ei fonitro gan yr aelod o'r Cyd-bwyllgor Archwilio sy'n mynychu'r Bwrdd Sicrwydd Gwybodaeth.

| Adolygiad | Lefel Sicrwydd | Adolygiad | Lefel Sicrwydd |
|---|---|---|---|
| Y Cynllun Heddlu a Throseddu | Sylweddol | Rheoli'r Trysorlys | Sylweddol |
| Cynllunio Strategol, Datganiad Rheoli'r Heddlu (FMS) a Data | Sylweddol | Rheoli'r Fflyd Defnydd Tanwydd | Sylweddol |
| Rheoli risg – rheolaethau lliniaru. | Sylweddol | Fetio | Sylweddol |
| Rheoli Newid TGCh | Sylweddol | Trwyddedu Arfau Saethu | Sylweddol |
| Rheoli Cyllidebol | Sylweddol | Rheoli Adnoddau Dynol - Strategaeth Llesiant | Sylweddol |
| Pensiynau | Sylweddol | Rheoli Adnoddau Dynol – Sgiliau Arweinyddiaeth | Sylweddol |
| Cyfriflyfr Cyffredinol | Sylweddol | Cyflogres | Sylweddol |

| Adolygiad | Lefel Sicrwydd | Adolygiad | Lefel Sicrwydd |
|---|---|---|---|
| Rheoli Risg – Fframwaith Ymgorffori / Sicrwydd | Rhesymol | Iechyd a diogelwch | Rhesymol |
| Seiberddiogelwch | Rhesymol | Cofnodi troseddau | Rhesymol |
| Cynaliadwyedd | Rhesymol | Storfeydd Lifrai | Rhesymol |

MAE'R DDOGFEN HON HEFYD AR GAEL YN SAESNEG

# Blaenoriaethau’r pwyllgor yn 2025-2026

- Parhau i oruchwylio’r gwaith o baratoi’r datganiad o gyfrifon ar gyfer 2024-2025 i sicrhau bod yr amserlenni’n cael eu dilyn er mwyn cwblhau’n amserol.
- Ystyried y trefniadau rheoli ariannol yn barhaus a chynghori arnynt er mwyn datblygu’r cynllun ariannol tymor canolig ymhellach.
- Canolbwyntio ar feysydd allweddol i gefnogi blaenoriaethau’r CHTh a’r Prif Gwnstabl, gan gynnwys y canlynol:
    - Parhad busnes, yn benodol sut mae’r sefydliadau wedi paratoi ar gyfer digwyddiad critigol, megis yr hyn a welwyd yn Sbaen a Phortiwgal yn dilyn toriadau pŵer.
    - Bod risgiau corfforaethol perthnasol yn cael eu hystyried wrth gynnal adolygiadau archwilio mewnol penodol.
    - Cynnal hunanasesiad o’r broses archwilio mewnol.
    - Monitro unrhyw faterion sy’n ymwneud â seiberddiogelwch a’r seilwaith TG cysylltiedig.
    - Monitro gweithrediad polisïau adnoddau dynol yn dilyn adolygiadau a diwygiadau.

MAE'R DDOGFEN HON HEFYD AR GAEL YN SAESNEG



# Manylion cyswllt

Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu,
Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin,

SA31 2PF

01267 226440

opcc@dyfed-powys.police.uk

www.dyfedpowys-pcc.org.uk

@dpopcc

